

# Taflen Ffeithiau

Troi allan yn anghyfreithlon

Coed Pella,  
Conway Road,  
Bae Colwyn.  
LL29 7AZ  
0300 1240040



## Beth yw troi allan yn anghyfreithlon?

Er mwyn i Landlord eich troi chi allan, mae gweithdrefn gyfreithlon y mae'n rhaid ei dilyn. Os yw eich Landlord yn eich troi allan ac nad ydynt wedi dilyn y weithdrefn gywir bydd yn cyfrif fel Troi Allan yn Anghyfreithlon. Enghreifftiau o droi allan yn anghyfreithlon:

- Eich gorfodi i adael drwy eich bygwth neu'ch aflonyddu
- Yn eich taflu allan yn bersonol
- Yn eich atal rhag cael mynediad at ardaloedd penodol o'r tŷ

## Beth ddylwn i ei wneud os yw fy landlord yn fy nhroi allan yn anghyfreithlon?

Ceisiwch drafod gyda'ch Landlord - os nad ydynt yn fodlon eich gadael yn ôl i mewn i'r eiddo gallwch egluro y byddwch yn cymryd camau pellach.

Os ydych wedi'ch troi allan yn anghyfreithlon mae gennych hawl i fyw yn yr eiddo. Bydd y Tîm Atal Digartrefedd yn gallu eich cynorthwyo.

Gallwch gymryd camau cyfreithiol sifil i gael eich gadael yn ôl i mewn i'r eiddo.

## Beth all Datrysiadau Tai Conwy ei wneud i helpu?

Gall Swyddog Atal Digartrefedd:

- Drafod gyda'r Landlord;
- Rhybuddio eich landlord ynglŷn â chanlyniadau posibl troi allan yn anghyfreithlon
- Eich cynorthwyo i fynd yn ôl i'ch cartref ar ôl eich troi allan yn anghyfreithlon.
- Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y pŵer i erlyn landlordiaid sy'n troi allan y tenantiaid yn anghyfreithlon.

## Beth all y Llysoedd ei wneud?

Mewn rhai amgylchiadau mae gan y Llysoedd y pŵer i roi gwaharddeb brys i chi. Mae hyn yn golygu bod yn RHAID i'ch Landlord eich gadael yn ôl i mewn i'ch cartref.

Gall y llysoedd orchymyn bod landlordiaid yn talu iawndal i chi.

## All yr Heddlu ddarparu cymorth?

Oni bai bod yr achos o droi allan yn dreisgar, mae'n annhebyg y bydd yr Heddlu yn cyfranogi. Fodd bynnag, dylid adrodd am droi allan rhag ofn eich bod angen tystiolaeth yn ddiweddarach.

- Gofynnwch i'r heddlu am gymorth os ydych yn cael eich troi allan yn anghyfreithlon.
- Dylai'r heddlu ddod i'ch cartref os y gallant atal trais neu dor heddwch
- Mewn argyfwng ffoniwch 999.



- Weithiau efallai na fydd yr heddlu yn gwybod am y gyfraith am droi allan yn anghyfreithlon. Gallwch ddweud wrthynt bod Deddf Gwarchod rhag Troi Allan 1977 yn ei gwneud yn drosedd i'ch landlord eich troi allan heb ddilyn y camau cyfreithiol cywir. Ni ddylai'r heddlu alluogi na chynorthwyo landlord i'ch troi allan, ond gallant weithredu i atal tor heddwch.
- Dangoswch gopi o'ch cytundeb tenantiaeth i'r heddlu.

Os gall y Swyddog Atal Digartrefedd gadarnhau nad ydych yn gallu cael mynediad i'r eiddo, efallai y gallant gynnig llety dros dro i chi, yn dibynnu ar eich amgylchiadau unigol. Byddwn yn trafod hyn gyda chi yn ystod eich asesiad.

Os ydych chi'n derbyn mynediad yn ôl i'ch cartref efallai na fyddwch yn teimlo'n ddiogel nac yn gyfforddus ar ôl cael eich troi allan. Yn ystod eich asesiad gyda'r Swyddog Atal Digartrefedd, byddwch yn derbyn cyngor am Ddarparwyr Tai amrywiol a sut i dderbyn llety amgen, fforddiadwy.

## A oes unrhyw wasanaethau eraill sy'n gallu rhoi cyngor a chefnogaeth i mi?

Oes – Gall ein hasiantaethau partner gynnig ystod o gyngor a chefnogaeth i chi.

**Shelter**  
Cymru

☎ 01792 469400

💻 [www.sheltercymru.org.uk](http://www.sheltercymru.org.uk)

📍 Uned 5, Adeilad yr Orsaf, Stryd Bodfor, Y Rhyl LL18 1AT



☎ 0344 477 2020

💻 [www.citizensadvice.org.uk](http://www.citizensadvice.org.uk)

📍 Eryl Wen, Eryl Place, Llandudno, Conwy LL30 2TX



Dewis Cymru yw'r lle i gael gwybodaeth am les yng Nghymru.

Os hoffech wybodaeth all eich helpu i feddwl am yr hyn sy'n bwysig i chi, ynghyd â gwybodaeth am sefydliadau a gwasanaethau lleol a all helpu, gallwch fynd i wefan Dewis Cymru ar [www.dewis.wales](http://www.dewis.wales).

Gall y wefan eich cynorthwyo i gael mynediad at wasanaethau cefnogaeth lleol a chanfod gwybodaeth a chyngor. Mae'n bwynt mynediad sengl, clir a dibynadwy.

This document is also available in English.

Fersywn 2 Ionawr 2020

